


TREFNIADAU BEN BORE AC AR ÔL YSGOL – BEFORE AND AFTER SCHOOL ARRANGEMENTS.

Edrychwn ymlaen i groesawu Bl 2 a Derbyn i'r ysgol fory, a Bl 1 a Dosbarth Meithrin mewn Ddydd Mercher. Rydych wedi cael gywbodaeth am y trefniadau yn barod, ond dyma ychydig o wybodaeth ychwanegol i'ch hatgoffa.

Mae HOLL blant y Cyfnod Sylfaen i wisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda. Fe fydd mwy o wybodaeth wythnos nesaf am ddyddiau Addysg Gorfforol ayyb.

Bydd **system unffordd** yn parhau oherwydd y gwaith adeiladu ac i sicrhau fod llif y dorf yn symud i'r un cyfeiriad yn ystod y pandemig – gyda PHAWB yn dod ar y safle trwy'r **giât uchaf**. **Atgoffir pawb i wisgo mwgwd pan ar dir yr ysgol.**



MYNEDIAD I'R SAFLE



GADAEL Y SAFLE

Cyrraedd yn y bore (8.45 tan 9.00)

Bydd disgyblion y **Meithrin a'r Derbyn** yn cael eu cyfarfod gan staff yr ysgol wrth y giât goch tu allan i'r Uned dan 7 ger blaen yr ysgol.



Bydd disgyblion **Blwyddyn 1 a 2** yn cael eu cyfarfod ger y giât werdd letaf ym mhen uchaf adran allanol yr Uned dan 7. Mae llwybr o gerrig wedi ei gosod er mwyn osgoi i'r disgyblion fynd ar y glaswellt. Bydd staff yr ysgol yn monitro mynediad pawb yn ddiogel i'r adeilad.



Bydd disgyblion **Blwyddyn 3 a 4** yn cael eu cyfarfod ger y brif fynedfa.



Bydd disgyblion **Blwyddyn 5 a 6** yn cyrraedd y safle drwy'r giat uchaf ac yna yn mynd i mewn trwy'r drws arferol hyd nes y bydd y drws newydd yn nosbarth Mr Rh. Jones wedi'i gwblhau.

Gall y plant hŷn ddod a'r plant iau os yw hyn yn hwyluso pethau i chi. Fe'ch hatogoffir mai un oedolyn o bob teulu ddylai ddod.



Ar ôl gadael y plant yn ddiogel gyda'r staff, bydd pawb yn dilyn y system un-ffordd a symud oddi ar y safle gan gerdded heibio ochr yr ysgol ac allan trwy'r giât werdd fawr (na fydd yn cael ei defnyddio gan unrhyw gerbydau erbyn yr amser hwnnw). Eto, bydd aelodau o staff yn goruchwyllo'r fynedfa honno.

Gadael ar ddiwedd y dydd (CS – 2.55, CA2 – 3.05)

Meithrin (gorffen 11.30) a **Meithrin Plus** i ddod allan drwy'r brif fynedfa ond wedyn dilyn y system unffordd.



Yn wahanol i'r bore, byddwn yn gofyn i rieni disgyblion **Derbyn** ddod i gasglu'r plant o ardal tu allan yr Uned dan 7 a rhieni i sefyll o dan y coed a ger y palmant yn y pendraw)



Parhau gyda'r un drefn sydd wedi bod yn digwydd yn barod ar gyfer **Blwyddyn 1 a 2** ond sefyll ochr isaf i'r llwybr os gwelwch yn dda.



Bydd disgyblion **Blwyddyn 3 a 4** yn cadw at yr un drefn gan ddod allan trwy'r brif fynedfa fel ag a wneir ar hyn o bryd. Gofynnir i rieni y disgyblion hynny i aros amdanynt ar yr un man ag a wneir ar hyn o bryd.



Bydd disgyblion **Blwyddyn 5 a 6** yn dod allan trwy'r un drws ag a ddefnyddir i ddod i mewn – eto hyd nes y bydd y drws newydd wedi'i gwblhau

